



Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd Y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

20-09-21

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Rwy'n gobeithio fod eich plentyn/plant wedi setlo'n ôl yn dda yn yr ysgol dros y ddwy wythnos diwethaf. Mae wedi bod yn ddechrau eithriadol o brysur i'r flwyddyn ysgol newydd gydag achosion positif o COVID mewn rhai ysgolion yn cynyddu'n sylweddol uwch nag unrhyw amser arall yn ystod y pandemig. Rydym yn falch ein bod wedi cynghori dychwelyd gofalus i'r ysgol.

O ddydd Llun 20 Medi, bydd disgwyl i fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer ysgolion fod ar waith o fewn yr holl ysgolion i gynorthwyo gyda rhedeg pob ysgol o ddydd i ddydd. Mae'n bosibl felly y bydd angen i rai ysgolion gael mwy o fesurau ar waith nag eraill gan ddibynnu ar nifer yr achosion positif yn yr ysgol yn unol â'i asesiad risg.

Fodd bynnag, mae rhai mesurau yr ydym yn cynghori ddylai fod yn gyson trwy'r holl Awdurdod Lleol yn unol â'r fframwaith newydd. Rydym yn rhoi anogaeth gref i'r holl staff a'r holl ddisgyblion o flwyddyn 7 ac uwch i gynnal profion LFD ddwywaith yr wythnos ar ddydd Sul a dydd Mercher. Fe fyddwch yn gallu casglu'r profion hyn o lyfrgelloedd a fferyllfeydd led led Powys.

Mae disgwyliad hefyd bod trefniadau hylendid da ar waith megis golchi dwylo'n rheolaidd trwy gydol y dydd ar gyfer yr holl staff a disgyblion yn y cartref a'r ysgol. Fe fydd hyn yn helpu i atal lledaeniad y feirws.

Rydym hefyd yn cynghori y dylai nosweithiau Agored a nosweithiau Rhieni ddigwydd o bell y tymor hwn. Roedd hyn yn effeithiol iawn y llynedd gydag ysgolion yn cynhyrchu gwybodaeth o ansawdd uchel iawn i rieni fel y byddent yn gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth wrth ddewis ysgolion uwchradd i'w plant. Roedd nosweithiau rhieni a gynhaliwyd o bell yn llwyddiannus iawn hefyd.

Unwaith eto, diolch yn fawr am eich cydweithrediad hyd yn hyn a gobeithio y gall y plant a phobl ifanc barhau yn yr ysgol trwy gydol tymor yr hydref ac y gall pethau ddychwelyd at normal yn ein hysgolion cyn gynted ag sy'n bosibl.

Clr Phyl Davies
Cabinet Portfolio Holder for
Education and Property

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



Yn agored a blaengar - Open and enterprising
www.powys.gov.uk